**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/MD/4012/13
David Rees AC
Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Rhagfyr 2013

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y gwaith o adolygu Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Ers ei gyflwyno yn 2010, mae'r Fframwaith wedi darparu nifer o fuddiannau, gan gynnwys mwy o lywodraethu ar ofal iechyd parhaus o fewn Byrddau Iechyd Lleol, mwy o gysondeb wrth wneud penderfyniadau ar asesiad a chymhwysedd, a threfniadau cryfach ar gyfer adolygu asesiadau. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn sylweddoli bod angen adolygu'r trefniadau hyn ymhellach Adlewyrchwyd hyn mewn adroddiad diweddar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, er bod yr adroddiad wedi egluro nad oes angen ailysgrifennu'r Fframwaith yn gyfan gwbl. Rwy'n cytuno â'r safbwynt hwn.

Cyflawnwyd cryn dipyn o waith, gyda nifer o grwpiau Gorchwyl a Gorffen thematig yn cymryd rhan, gydag arbenigwyr o blith y sector iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â staff o swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol, i edrych ar sut y gallwn wneud yn siŵr bod trefniadau'r dyfodol yn dal i fod yn addas i'r diben. Mae'r safbwyntiau hyn wedi cyfrannu at adolygiad drafft o agweddau penodol ar y Fframwaith, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori arno heddiw, am gyfnod o 12 wythnos. Y bwriad yw bod fersiwn derfynol o'r Fframwaith diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

Rwy'n anfon copi o'm llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, Andrew R T Davies, Kirsty Williams a Leanne Wood.

Yn gywir
Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*